# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*ClerkandChief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau27 Ebrill 2017**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd GodfreyNortham
Y Cynghorydd Pearl Evans

**1. Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Neville Hughes.
Ymddiheuriadau gan y Cyng. Susan Davies.
Pawb yn dymuno yn dda i Meleri Davies a'r teulu ar enedigaeth eu merch. Y Cyngor am anfon cerdyn i longyfarch y teulu.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Llys Dafydd: Y Cyngr,GodfreyNortham, Linda Brown ac Ann Williams; Eitem 7, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr.Neville Hughes, Paul Rowlinson a Griff Morris.

**3. Materion Brys**
**3.1** Adroddwyd bod yna bryderon ynglŷn a digwyddiadau diweddar ar y stryd fawr. Y Cyngor yn awyddus i barhau gyd-weithio gyda'r heddlu. Penderfynwyd anfon llythyr at Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu i ofyn pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddod a'r sefyllfa i drefn.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ain Mawrth 2017, yn ddarostyngedig i ychwanegu eitem **9.7** E-bost gan y Cyng. Ann Williams yn datgan bod y cais am grant i greu llwybr troed ar hyd Lon Newydd Coetmor wedi bod yn llwyddiannus, ac hefyd bod y gwasanaeth bws Sherpa i Fetws y Coed yn ail-gychwyn o fis Ebrill hyd at mis Tachwedd. Newyddion da iawn!

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Cysylltu a'r Chwarel -** Y Cyng. Neville Hughes wedi ymweld a'r weiren wib, neb ar gael i sgwrsio, ond wedi cael cyfeiriad e-bost er mwyn ysgrifennu i drefnu cyfarfod. Dim ymateb wedi

dod hyd yn hyn. Hefyd penderfynwyd holi yn y cyfarfod nesaf pa gamau sydd wedi eu cymryd i ddistewi'r weiren wib.
**5.2 Gofod parcio dros nos ar gyfer cerbydau 'camper' –** yn dilyn y cyfarfod diweddar, mae'r Is-bwyllgor yn ffafrio maes parcio Plas Ffrancon fel safle addas. Yn disgwyl ymateb gan gwasanaeth Hamdden Cyngor Gwynedd.
**5.3 Cynllun llwybr troed Lon Newydd Coetmor** – penderfynwyd holi am gopi o'r cynllun.

**6. Adroddiad Llys Dafydd**
Adroddwyd bod diwrnod Egin Ogwen a gynhaliwyd ar y safle 08.04.17 wedi bod yn llwyddiannus dros ben, llawer wedi dangos diddordeb yn y prosiect. Ond adroddwyd yn ddiweddarach y noson honno roedd y bocsys tu allan i'r safle wedi cael eu sathru.
Adroddwyd hefyd bod yr adeiladwr wedi llenwi'r bwlch yn y wal i atal pobl rhag mynd mewn i'r safle pan fydd y giât wedi cau.

**7. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Adroddwyd bod Ann Carran wedi ymddiswyddo fel Swyddog Gweinyddol y Bartneriaeth, ac bod Mari Gwyn am lenwi'r bwlch.
Ynni Ogwen-adroddwyd bod y tyrbein wedi ei gysylltu ac wedi cynhyrchu 17kw o drydan, sy'n addawol iawn yn ystod cyfnod o dywydd sych.

**8. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Bwthyn Ogwen –adroddwyd bod cynlluniau ar y gweill i ddod a'r sefyllfa parcio ar y palmant i drefn.

**9. Llwybrau**
Penderfynwyd bod y llwybrau yn iawn am ychydig wythnosau eto, ond bod angen gwaith chwynu wedi ei wneud o amgylch y gofeb. Y Clerc i gysylltu â Mr Jackson.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2017'
**10.1**. E-bost gan Un Llais Cymru ar ran Siarter Coed y Werin-gwahoddiad i fod yn rhan o'r Siarter. Nodwyd yr ohebiaeth.
**10.2** E-bost gan Gyngor Gwynedd ynglŷn a'r cynllun ad-dalu costau am waith cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus yn ystod 2017-18. Penderfynwyd cadarnhau bod y Cyngor yn awyddus i fod yn rhan o'r trefniant ad-dalu.
**10.3** E-bost gan Un Llais Cymru - Gwahoddiad i gyflwyno uchafswm o ddau gynnig i'w trafod yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol ar ddydd Sadwrn, 30 Medi 2017. Rhaid iddynt gyrraedd y swyddfa erbyn dydd Gwener, 30 Mehefin fan pellaf. Penderfynwyd bydd pawb yn ystyried y mater erbyn y cyfarfod nesaf.
**10.4** E-bost gan Un Llais Cymru **-** rhestr o ddyddiadau hyfforddiant sydd ar gael i gynghorwyr newydd. Y Clerc yn dymuno mynychu, ac angen rhoi gwybod i'r cynghorwyr newydd yn y cyfarfod nesaf.
**10.5** E-bost gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – adroddiad ar ganfyddiadau yn dilyn digwyddiadau ymgysylltu gyda Chynghorau Cymuned a Thref. Y Pwyllgor Cyllid i'w drafod yn y cyfarfod chwarterol nesaf.
**10.6** E-bost gan Un Llais Cymru – templed o bolisi cyfryngau cymdeithasol. Penderfynwyd bod pawb i ddarllen y ddogfen, a trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
**10.7** E-bost gan Arfon Hughes – adroddiad cryno o arolwg anghenion tai ym Methesda. Penderfynwyd anfon gwahoddiad i Arfon i gyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin.

**10.8** E-bost gan Un Llais Cymru – ymgynghoriad rheilffordd- ynglŷn a newidiadau arwyddocaol i ddarpariaeth gwasanaeth rheilffyrdd drwy Gymru wrth i'r 'fasnachfraint' i redeg trennau ar yr amrywiol leiniau ddod i ben yn 2018. Penderfynwyd bydd y Cynghorwyr yn ymateb fel unigolion.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**Penderfyniadau**
**RMJ/AE0460**

| | |
|---|---|
| Cwrw Ogwen, 5 Rhes Ogwen, Bethesda | Trwydded Eiddo<br>**Caniatawyd** |

**C17/0232/13/AM**

| | |
|---|---|
| 5 Ffordd Tanybwlch, Rachub | Cais amlinellol i godi tŷ deulawr newydd<br>**Holl ymgynghoriadau drosodd** |

**Ceisiadau**
**C17/0367/13/LL**

| | |
|---|---|
| Capel Bethel, Henbarc, Rachub | Creu mynedfa gerbydol newydd a man troi, newid defnydd y Capel o addoldy i uned gwneud clogsiaua cadw defnydd Ty capel yn uned preswyl.<br>**Dim gwrthwynebiad, ond pryder am sŵn a gwlededd o'r fynedfa.** |

**C17/0379/13/LL**

| | |
|---|---|
| 27 Braichmelyn, Bethesda | Dymchwel estyniad unllawr cefn presennol a codi estyniad deulawr yn ei le<br>**Dim gwrthwynebiad** |

**12. Taliadau**
<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Ebrill) | £260.00 |
| CThEM (Ebrill) | £65.00 |
| Londis (papurau Mawrth) | £28.75 |
| Un Llais Cymru-aelodaeth | £636.00 |
| Partneriaeth Ogwen | £10369.21 |
| Un Llais Cymru-hyfforddiant | £70.00 |
| R Jones-Llys Dafydd | £94.98 |
| Neuadd Ogwen-gorymdaith | £124.20 |
| Scottish Power – trydan Gorffwysfan | £89.04 |
| Macemain & Amstad-lloches bws | £4461.60 |